Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion atoch i gyd, ac yn arbennig at y rhai sydd naill ai yn yr ysbyty neu wedi bod yn cael gofal yno yn ddiweddar. Mae Trebor Roberts (Llansannan) wedi bod yn derbyn gofal dwys yn Ysbyty Glan Clwyd dros yr wythnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion anwylaf ato a gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn parhau i roi nerth a chysur iddo ef a'r teulu y dyddiau hyn. Yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y mae Eurgain Pierce (Llannefydd), fel ag y mae Richard M. Jones (Cefn Berain) yn Ysbyty Rhuthun a Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Treuliodd Ffion Clwyd Edwards (Groes) gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd – da clywed bod y llawdriniaethau wedi mynd yn hwylus a'i bod newydd ddod adref o'r ysbyty. Bu Elizabeth Davies (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn dilyn anffawd hefyd – diolchwn ei bod hithau'n teimlo'n well erbyn hyn. Treuliodd Jeff Thomas (Llanfair) beth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar hefyd ac anfonwn ein cofion ato yntau. Yn yr un modd, parhawn i gofio yn ein gweddïau am Emlyn Davies (Llansannan) fu'n derbyn gofal yn San Cyndeyrn yn ddiweddar, ac am bawb arall sy'n derbyn gwahanol driniaethau ar hyn o bryd. Diolchwn am y gofal arbennig y mae'r meddygon a'r nyrsys, a phawb sy'n gofalu mewn unrhyw ffordd, yn ei roi i'r rhai sydd mewn angen. Cyflwynwn bob un o'r cleifion a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddïau, ac am addewid O'i ffyddlondeb.

Llongyfarchiadau calonnog i Tomos Davies (Cefn Meiriadog) a Gwenno ar eu dyweddïad. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau ohonynt, a gweddïwn fendith Duw ar eu perthynas.

Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2023-24

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2023-24 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i Mair **erbyn dydd Sul, Medi 24ain,** os gwelwch yn dda. Pris: £2.00.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (27ain), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17 Medi 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

20 mya

Maen nhw'n deud y bydda i funud yn hwyr yn yr oedfa fore Sul (heddiw, os darllenwch chi hwn ddydd Sul, Medi 17). Pwy sy'n deud? Y Llywodraeth, yn y daflen 'Byddwch yn barod am 20mya' a anfonwyd atom i'n hatgoffa am y newid i'r ddeddf a ddaw i rym heddiw. 'Bydd siwrneiau oddeutu munud yn hirach' yn ôl y daflen. Ond waeth i mi heb â smalio mod i'n deall hynny! Dyw'r daflen ddim yn manylu ynghylch hyd siwrneiau; dim ond cyfeirio at y 'Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022'. A do, mi geisiais ddarllen hwnnw! Hyd y gwelaf, honnir y bydd pob milltir o daith ar lonydd 20 milltir yr awr yn cymryd oddeutu 46 eiliad yn fwy nag ar lonydd 30 milltir yr awr. Dwi ddim yn ddigon o fathemategydd i fedru deud faint hwy o amser gymer y daith, dyweder, o Lanberis i Gaerdydd. Tipyn mwy na munud, yn sicr!

Ydi, mae'r ddeddf yn newid. Wnaiff hynny fawr o wahaniaeth yma yn Llanberis gan fod prysurdeb y lôn yn golygu na ellir mynd lawer cyflymach na 20 milltir yr awr p'run bynnag. Ond bydd yn stori wahanol lawr y lôn yn Nant Peris, sydd fel arfer yn dipyn tawelach. Ond anodd neu beidio, rhaid cydymffurfio â'r ddeddf newydd. A chwarae teg i'r Llywodraeth, mi ddylai pawb fod yn ymwybodol ohoni erbyn hyn.

Newid ac addasu ydi hanes sawl deddf. Ond yr un ddeddf nad yw'n newid o oes i oes ydi deddf Duw ar ein cyfer. Wrth gwrs, nid oes angen newid honno am ei bod eisoes yn berffaith. Mae hi'w gweld yn y Deg Gorchymyn (yn Exodus 20), ac mae wedi ei chrynhoi ymhellach gan Iesu Grist yn y ddau orchymyn: 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ... Câr dy gymydog fel ti dy hun' (Mathew 22:37-38). Yr un yw'r gyfraith. Nid yw gofynion Duw yn newid. Beth bynnag y newidiadau i'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni a'r amgylchiadau allanol a wynebwn, yr un yw disgwyliadau Duw: ein bod yn ei garu Ef â'r cyfan sydd ynom ac yn caru eraill yr un modd. Ac o wybod mor anodd yw gwneud hynny ac mor aml y syrthiwn yn fyr o'r nod, mae'n dda cofio mai cyfraith gras ydi cyfraith Dduw gan mai ei bwriad ydi dangos i ni'r union fethiannau hynny er mwyn i ni geisio'r maddeuant a'r cymod a ddarparwyd ar ein cyfer trwy Iesu Grist. Gyrrwch yn ofalus.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Medi 17eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd.
- **Cyfarfod Gweddi yn Saron** am 10:00. Sylwch, NI FYDD gwasanaeth **yn Nantglyn** heddiw.
- **Oedfa'r Fro** yn Llannefydd am 6:00 yr hwyr gydag Eryl Davies yn arwain a'r Parch. Dewi Tudur yn pregethu.

Dydd Mawrth, Medi 19eg

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.
- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn am 7:00 yr hwyr yng nghwmni Cefyn Burgess a'r Parch. Aneurin Owen. Bydd cyfle i gael paned a sgwrs ar ddiwedd y cyfarfod. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mercher, Medi 20fed

- **Pwyllgor Bugeiliol** (i flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, ynghyd â'r aelod sydd wedi ei ddewis i gynrychioli pob eglwys) **yng Nghapel Henllan** am 7:30 yr hwyr.

Dydd Iau, Medi 21ain

- **Hyfforddiant 'Agor y Llyfr' -** Mae Cymdeithas y Beibl wedi lansio adnoddau newydd i gyflwyno straeon o'r Beibl mewn ysgolion cynradd, a bydd yr hyfforddwyr - y Parch. Nesta Davies, a Ruth Holden (Swyddog Datblygu Cymdeithas y Beibl) - yn egluro'r newidiadau. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele o 10:30 tan 2:00. Dewch a byrbryd ar gyfer cinio, bydd paned ar gael. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, ffoniwch 07870 323790.

Dydd Sul, Medi 24ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Fedydd yn Henllan** am 9:30 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard pryd y bydd Gareth a Katie Jones yn cyflwyno Dion Hari a Saran Lois i gael eu bedyddio, a Mari a Danny Jones yn cyflwyno Eban William i'w fedyddio.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.

Dydd Mawrth, Medi 26ain

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.

Dydd Iau, Medi 28ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Sion Morris (Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Cymru), gyda chefnogaeth un o weithwyr Coleg y Bala, Anti Olwen a chyfeillion eraill. (Byddant yn nôl y plant o'r ysgol ac yn cerdded i'r Festri.) Cyn y sesiwn cyntaf, a wnewch chi gysylltu hefo Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Hydref 1af

- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Llanfair a Chefn Meiriadog) yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Mr Dafydd Murphy.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.

Rhaghysbysiadau

- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych nos Fawrth, Hydref 3ydd am 7:00 yr hwyr pryd y bydd Mr John Davies yn hyrwyddo Apêl yr Undeb 2023-24 – 'Ffynhonnau Byw'.
- **Oedfa Diolchgarwch Capel Saron** nos Wener, Hydref 6ed am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Morris P. Morris yn pregethu.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Llannefydd** a chinio i ddilyn bore Sul, Hydref 8fed am 11:00. Y siaradwr gwadd fydd Dr Mari Ll. Williams.